# Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru

National Deaf Children's Society

## Canllaw i rieni ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynlluniau datblygu unigol (CDU)

Mae'r ganllaw hon yn berthnasol i deuluoedd yng Nghymru yn unig. Mae'n esbonio'r term newydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n cael ei ddefnyddio yn lle anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae hefyd yn amlinellu'r system newydd i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc sydd ag ADY yng Nghymru, sy'n cael ei chyflwyno yn raddol o fis Medi 2021.

Dros amser bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn cael eu defnyddio yn lle Datganiadau AAA, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau. Bydd CDUau yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag ADY o 1 i 16 oed, a 16 i 25 oed, os ydyn nhw yn yr ysgol neu golegau addysg bellach.

Mae'r wybodaeth yn y ganllaw hon wedi'i seilio ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021, canllaw Llywodraeth Cymru i ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau ar sut i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY. Mae yna esiampl o CDU i gyd-fynd â'r ganllaw hon ar ein gwefan yn ndcs.org.uk/additional-support-education-wales.

Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021 yn cynnwys mwy o wybodaeth ar wahanol rannau o'r system newydd ac ar gael i'w lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cymru yn gov.wales/additional-learning-needs-code.

**Termau**

Rydym yn defnyddio'r term 'byddar' i gyfeirio at bob math o golled clyw o ysgafn i ddwys. Mae hyn yn cynnwys byddardod mewn un glust neu golled clyw dros dro fel clust gludiog.

Rydym yn defnyddio'r gair 'rhiant' i gyfeirio at bob rhiant a gofalwr plant.

Rydym yn defnyddio 'dysgwr' i gyfeirio at blant a phobl ifanc mewn addysg.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

## Cynnwys


| Cynnwys | |
|---|---|
| Hawliau dysgwyr | 2 |
| Adran 1: Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) | 3 |
| Adran 2: Chynlluniau datblygu unigol (CDU) | 5 |
| Yr hyn y gall rhieni ei wneud | 16 |
| Rhestr termau | 16 |


## Hawliau dysgwyr

- Gallwch chi neu unrhyw blentyn neu berson ifanc byddar, hyd yn oed os yw'r byddardod yn fân neu yn gymedrol, ofyn am CDU os ydych chi'n teimlo byddai cymorth ychwanegol yn cefnogi eu dysgu. Mae'n rhaid i'ch cais chi gael ei ystyried.
- Mae adrannau o'r Cod Ymarfer yn amlygu byddardod fel ADY. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn credu bod yna achos cryf i blentyn neu berson ifanc byddar i ofyn am asesiad CDU.
- Dylech chi a'ch plentyn neu berson ifanc byddar fod yng nghanol y broses o greu CDU a helpu penderfynu pa fath o DDY a fydd orau iddyn nhw.
- Mae'r CDU yn aros gyda'r plentyn ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd trwy gydol ei amser mewn addysg. Os bydd anghenion eich plentyn yn newid, efallai bydd y cymorth yn ei CDU yn newid neu efallai bydd y CDU yn cael ei atal. Ond, dylid dweud wrthoch chi am unrhyw gynlluniau i newid neu atal ei CDU a dylech chi gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.
- Dylai sefydliadau addysg ac iechyd weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r plentyn. Gall CDU gynnwys cymorth dysgu gan weithwyr iechyd proffesiynol, fel therapyddion lleferydd ac iaith.
- Mae'n rhaid bod eich anghenion cyfathrebu, ac anghenion cyfathrebu eich plentyn, yn cael eu hystyried yn unrhyw gyfarfodydd i drafod y CDU.
- Mae gan eich plentyn hawl i eiriolwr annibynnol - rhywun sy'n helpu dysgwyr i ddeall y broses o gael neu adolygu CDU ac yn ei helpu nhw i leisio ei farnau ar ei anghenion cymorth. Dylai Cynghorau allu cynnig y gwasanaeth hwn am ddim.
- Mae gennych chi a'ch plentyn yr hawl i herio penderfyniadau ynghylch y CDU ar bob cam, gan gynnwys penderfyniadau ar ddarparu, adolygu, newid, parhau neu atal CDU neu beidio, a'r cymorth sy'n cael ei amlinellu yng nghynllun eich plentyn.
- Gallwch chi apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru os na allwch chi ddatrys rhai anghytundebau ar lefel ysgol, coleg neu awdurdod lleol.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

## Adran 1: Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

**Beth yw ystyr ADY?**
Efallai eich bod chi'n gyfarwydd â'r term AAA. Mae'r term ADY nawr yn cael ei ddefnyddio yn lle AAA, ond mae'r diffiniad yn debyg iawn. I blant a phobl ifanc o oedran ysgol neu hŷn, diffinnir ADY fel:

- anhawster fwy i ddysgu nag eraill sydd o'r un oedran
  NEU
- ag anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio'r cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd neu golegau addysg Bellach (Y Ddeddf Gydraddoldeb 2010).

Ystyrir bod plant nad ydyn nhw yn yr ysgol eto yn cael ADY os ydyn nhw'n debygol o gael unrhyw un o'r uchod yn y dyfodol.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru yn credu bod byddardod yn dod o fewn diffiniad ADY ac wrth ofyn am CDU, mae dysgwyr byddar mewn sefyllfa hynod o dda i'w dderbyn.

Os byddai ysgol, coleg neu awdurdod lleol yn awgrymu bod byddardod, yn enwedig byddardod mân neu unochrol, ddim yn ADY, gallwch chi eu cyfeirio nhw at y Cod sy'n amlinellu sut dylai proses y CDU weithio.

Yn benodol mae'n cynnwys byddardod fel enghraifft o ADY (gweler paragraffau 2.27 a 2.34 y Cod) a gall y rheini sydd â lefelau o fyddardod is dal gael anghenion cymorth (gweler paragraff 2.38 y Cod).

I fod yn gymwys am CDU, mae'n rhaid i blentyn neu berson ifanc byddar gael ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY).

**Beth yw ystyr DDY?**
DDY yw'r cymorth sy'n cael ei rhoi i blentyn neu berson ifanc sydd ag ADY i'w helpu nhw gyda'u dysgu. Mae'n wahanol i'r lefel o gymorth sy'n cael ei rhoi yn gyffredinol i ddysgwyr o'r un oedran. Gall hyn fod mewn lleoliad meithrin, ysgol neu goleg addysg bellach yng Nghymru, neu hyd yn oed cymorth i gefnogi teulu i helpu gyda datblygiad ei faban.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

Mae sawl math o DDY a gall gynnwys:

- cymorth sy'n digwydd o fewn neu y tu fas i'r ystafell ddosbarth prif ffrwd
- cymorth i deulu plentyn byddar
- technoleg clyw
- hyfforddiant i'r rheini sy'n gweithio gyda phlentyn byddar
- cymorth gan weithiwr proffesiynol fel Athro Plant Byddar (APB) neu therapydd lleferydd ac iaith
- enwi ysgol neu goleg penodol sydd â chymorth arbenigol ar gael ar gyfer dysgwyr byddar

**Pwy all gael asesiad CDU?**
Mae plant (0 i 16), a phobl ifanc (16 i 25) sy'n mynychu chweched dosbarth neu goleg, yr ystyrir bod ganddyn nhw ADY sydd angen DDY, yn gymwys am asesiad CDU i benderfynu a fydd angen cynllun cymorth ac, os oes, beth ddylai'r cymorth hynny gynnwys.

Mae CDUau i blant sydd â phob lefel o angen o fân i gymhleth. Bydd hyd a chynnwys y CDU yn dibynnu ar anghenion y plentyn. Mae gwybodaeth mewn canllaw Llywodraeth Cymru (paragraffau 2.27, 2.34 a 2.38 y Cod) yn awgrymu bod plant a phobl ifanc byddar yn gymwys am asesiad CDU.

Os oes gan eich plentyn byddardod dros dro, efallai bydd gweithwyr proffesiynol yn ystyried ffactorau fel pa mor hir mae'r plentyn wedi cael y golled clyw, wrth benderfynu a fydden nhw'n gwneud asesiad ar gyfer CDU.

**Pobl ifanc byddar**

Er mai dim ond os ydynt yn mynychu coleg neu chweched dosbarth y mae'r rhai 16 i 25 oed yn gymwys i gael CDU, efallai y bydd pobl ifanc byddar eraill yn gallu cael mynediad at wahanol fathau o gymorth. Gan gynnwys:

- Lwfans Myfyrwyr Anabl i dalu costau sy'n gysylltiedig ag anabledd mewn Addysg Uwch
- Mynediad i Waith ar gyfer cymorth ariannol mewn cyflogaeth

Am ragor o wybodaeth, ewch i ndcs.org.uk/money-and-benefits.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

## Adran 2: Cynlluniau datblygu unigol (CDUau)

**Beth yw CDU?**
Efallai eich bod chi'n gyfarwydd â Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, Datganiadau. Neu Gynlluniau Dysgu a Sgiliau. Bydd CDUau yn cael eu defnyddio yn lle'r rhain i gyd dros amser.

Mae CDU yn ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu pa DDY dylai plentyn neu berson ifanc gael i gefnogi eu dysgu. Yn gyffredinol dyletswydd yr ysgol neu goleg addysg bellach yw paratoi a chynnal y CDU. Ond, yn achos plant cynysgol, dysgwyr gydag anghenion mwy arbenigol, neu os yw plenty mewn gofal, bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am y CDU.

Bydd y rheini sy'n cydgysylltu'r cynlluniau yn aml yn gofyn am gyngor a chymorth gan weithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys Athrawon Plant Byddar (APB), awdiolegwyr, a therapyddion lleferydd ac iaith.

Bydd y system newydd yn cael dull o weithredu mwy integredig o gefnogi dysgwyr, gydag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd. Bydd gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) sy'n gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau addysg ac iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.

Gellir dod o hyd i dempled CDU ar ein gwefan yn [ndcs.org.uk/additional-support-education-wales](ndcs.org.uk/additional-support-education-wales). Mae'n egluro'n fanylach y wybodaeth y gallwch ddisgwyl ei gweld mewn CDU.

**Sut i gael CDU?**
Y cam cyntaf yw gofyn am un cyn gynted â phosib.

Os yw'ch plentyn yn cael ei adnabod i fod yn fyddar yn ystod ei sgrinio babanod neu cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol, gallwch chi ofyn i'ch awdurdod lleol am CDU. Y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) bydd eich man cyswllt allweddol.

Os yw'r byddardod yn cael ei adnabod pan mae'ch plentyn yn oedran ysgol neu goleg, neu os nad yw'ch plenty wedi cael CDU o'r blaen a nawr rydych chi am gael un, yr ysgol neu'r coleg yw'r man cyswllt cyntaf. Mae gan bob ysgol a choleg Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a fydd eich man cyswllt allweddol.

Gallwch chi neu'ch plentyn ofyn am CDU. Does dim rhaid i chi aros am weithiwr proffesiynol i atgyfeirio eich plentyn i mewn i'r system CDU. Gall gweithiwr proffesiynol,

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

fel awdiolegydd sy'n gweithio gyda'ch plentyn, atgyfeirio eich plentyn am CDU, ond dylen nhw siarad â chi am hyn yn gyntaf.

**Rydw i wedi gofyn am CDU, beth nesaf?**

Unwaith rydych chi wedi gofyn am CDU, dylai'r awdurdod lleol, ysgol neu goleg benderfynu ar ddarparu CDU neu beidio. Dylen nhw roi copi o'r CDU hwn i chi, o fewn 35 diwrnod ysgol o'ch cais. Gallai gymryd mwy na 35 diwrnod ysgol os oes yna resymau sy'n gwneud y terfyn amser hwn yn anymarferol yn unig. Gorau po gyntaf y byddwch chi'n gwneud eich cais, gan nad yw'r cyfnod o 35 diwrnod yn cynnwys gwyliau ysgol.

Os yw'r CDU yn cael ei baratoi yn gyntaf gan yr awdurdod lleol pan mae'ch plentyn yn faban neu'n blentyn bach, mae'n debygol mai'r ysgol a fydd yn gyfrifol amdano unwaith i'ch plentyn ddechrau addysg.

Wrth i'r CDU gael ei baratoi, mae'n rhaid i'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol sicrhau bod eich plentyn wrth galon y broses. Mae'n rhaid iddyn nhw ymgysylltu â chi a'ch plentyn am ei anghenion a pha gymorth byddai orau iddyn nhw.

Byddwch chi, eich plentyn a gweithwyr proffesiynol allweddol yn cael eich gofyn i anghenion eich plentyn ac yn cael eich gwahodd i gyfarfod i drafod cymorth eich plentyn ymhellach.

Rhan allweddol o'ch cynnwys chi a'ch plentyn yw deall sut maen nhw am gyfathrebu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys pa iaith rydych chi gyd am ddefnyddio yn y broses, a sut mae'r cyfathrebu hynny yn digwydd (paragraffau 4.13 a 4.14 y Cod). Os yw'n well gennych chi neu'ch plentyn ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn ystod y cyfarfodydd i drafod y CDU, mae'n rhaid i'r ysgol neu goleg sicrhau bod hyn yn digwydd. Hefyd, os yw'n well gennych chi neu'ch plentyn gyfathrebu yn Gymraeg, dylai'r ysgol neu goleg roi sylw i hyn.

Mae'n rhaid i chi a'ch plentyn weld copi drafft o'r CDU a chael y cyfle i sylwi ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys ynddo. Os nad ydych chi'n hapus gyda'r CDU, dylai'r ysgol neu goleg ystyried eich pryderon.

**Beth sy'n cael ei gynnwys mewn IDP?**

Mae CDU yn ddogfen gyfreithiol. Efallai eu bod nhw'n edrych yn wahanol mewn gwahanol ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol ac efallai y byddai ar bapur neu'n ddigidol. Ond, mae'n rhaid i bob CDU gynnwys gwybodaeth a phenawdau penodol. Os nad yw'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol yn defnyddio'r penawdau a amlinellir yn y Cod, efallai na fydd yn gyfreithiol rwymol, a gallwch chi eu herio nhw ar y mater hwn (paragraff 23.5 y Cod).

Mae'r CDU yn cynnwys holl fanylion am y plentyn neu berson ifanc - ei ADY a pha fath o DDY sydd angen arnyn nhw i gefnogi ei ddysgu. Mae'r ffocws ar y canlyniadau a ddymunir a sut i'w cyflawni nhw.

### Iaith

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf neu os yw'n well gennych chi gyfathrebu gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, gallwch chi ychwanegu hyn i Adran 1A.10 yn CDY eich plentyn.

### Proffil Un Dudalen

Mae'r Proffil Un Dudalen (Adran 1C o CDU) yn grynodeb o gymeriad y plentyn neu berson ifanc, hoff bethau a chas bethau, doniau a thalentau a gwybodaeth bwysig i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Dylai'r dysgwr (ac, yn enwedig yn achos plant iau, eu teuluoedd) chwarae rhan allweddol mewn creu'r proffil hwn. Efallai hoffech chi gynnwys gwybodaeth am sut mae eich plentyn yn cyfathrebu, unrhyw dechnoleg y maen nhw'n ei defnyddio ac awgrymiadau allweddol ynghylch ymwybyddiaeth o fyddardod.

Mae'r Cod (paragraff 23.24) yn awgrymu defnyddio'r penawdau dilynol yn y proffil:

- Yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr?
- Yr hyn sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr?
- Yr hyn sy'n gweithio a dylid adeiladu arno
- Yr hyn nad yw'n gweithio ac sydd angen ei newid

**Pwysig**

Gall Proffil Un Dudalen ar ei ben ei hunan fod yn ddefnyddiol ond nid yw'n CDU llawn neu'n ddogfen gyfreithiol - mae'n grynodeb o'ch plentyn a'i anghenion cyffredinol. Mae manylion am unrhyw gymorth dysgu sy'n cael ei ddarparu iddyn nhw yn dod yn ddiweddarach yn y CDU. Peidiwch â derbyn unrhyw awgrym bod y Proffil ar ei ben ei hun yr un peth â chael CDU.

### Amlinelliad o DDY

Rhan bwysig o CDU yw Adran 2 sy'n disgrifio DDY eich plentyn. Bydd gan bob plentyn byddar anghenion gwahanol a bydd angen gwahanol fathau o DDY arnyn nhw.

Cynllunnir y CDU i edrych ar ganlyniadau - yr hyn rydych chi am i ddigwydd yn y pendraw. Efallai bydd y canlyniadau yn rhai hirdymor neu dymor byr - ond dylai pob

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

canlyniad gael ei ysgrifennu mewn ffordd CAMPUS - Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol. Efallai bydd y canlyniadau hirdymor yn cael eu rhannu yn dargedau neu gerrig milltir llai. Mae'n bosib bydd y canlyniadau mwy hirdymor yn aros yn y CDU am sawl blwyddyn.

Dylech chi allu dilyn cynnydd dros amser gyda CDU, oherwydd dylai'r ddogfen aros gyda'r plentyn i gael ei adolygu trwy gydol ei flynyddoedd ysgol a choleg, cyhyd ag y mae angen cymorth arnyn nhw.

Mae canllaw Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai CDU roi gwybodaeth glir ar ba gymorth a fydd yn cael ei ddarparu. Felly, er enghraifft, ni ddylai'r CDU datgan bod eich plentyn 'yn cael mynediad at Athro Plant Byddar' yn unig, ond dylai hefyd amlinellu pa mor aml bydd yr ymweliadau gan yr Athro Plant Byddar.

### Gwybodaeth arall

Mae CDU yn cynnwys llawer o adrannau eraill, gan gynnwys:

- amlinelliad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) eich plenty
- unrhyw anghytundebau am yr hyn ddylai gael ei gynnwys yn y cynllun
- cynllunio am unrhyw drefniadau pontio
- y dyddiad olaf i adolygu'r cynllun

Gellir gweld templed o CDU yma ar ein gwefan sy'n esbonio'r wybodaeth y gallwch chi ddisgwyl gweld mewn CDU yn fwy manwl.

Mae'n bwysig cofio bydd lefel y manylion mewn CDU yn wahanol i wahanol ddysgwyr. Mae'n debygol y bydd y rh eini sydd ag anghenion mwy cymhleth â gwybodaeth fwy manwl na'r rheini sydd
â llai o anghenion.

## Sut gwneir penderfyniad am y fath o DDY i ddarparu?

Dylid cynnal cyfarfod i drafod y DDY. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol neu goleg. Mae'n rhaid bod gan bob ysgol neu goleg CADY a nhw fydd eich man cyswllt cyntaf am unrhyw faterion. Os nad yw’ch plentyn wedi dechrau ysgol eto, eich prif fan cyswllt bydd Y SAADYBC yn eich cyngor lleol. Efallai bydd gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwn os allan nhw wneud cyfraniad arbenigol ar anghenion eich plentyn.

Byddwch chi a'ch plentyn hefyd yn cael eich gwahodd i'r cyfarfod. Mae'r system newydd wedi cael ei dylunio o amgylch y syniad o Gynllunio sy’n Canolbwyntio ar Unigolion (CCU) sy'n golygu eich bod chi a'ch plentyn yng nghanol y broses o

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

benderfynu ar y cymorth dysgu gorau iddyn nhw. Dylai popeth gael ei esbonio'n glir, a dylai teuluoedd a dysgwyr gael eu cefnogi a'u hannog i ofyn cwestiynau a chodi pryderon.

**Beth sy'n digwydd cyn cyfarfod CDU?**

Mae'n bwysig bod y gweithwyr proffesiynol sy'n cydlynu'r asesiad CDU yn casglu gwybodaeth am ADY y plentyn neu berson ifanc. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio wrth benderfynu cynnig DDY neu beidio ac, os felly, pa fath o DDY i'w chynnig.

Gall gwybodaeth gynnwys:

- adroddiadau ar asesiad a thargedau gan athrawon a staff cymorth
- tystiolaeth o ymyriadau cymorth blaenorol neu arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth
- adroddiadau gan weithwyr proffesiynol arbenigol fel Athrawon Plant Byddar (APB), awdiolegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith

Dylai'r adroddiadau hyn cael eu rhannu gyda chi cyn y cyfarfod. Os oes angen help arnoch chi i'w deall, gallwch chi ofyn i'r CADY neu SAADYBC gan fod ganddyn nhw gyfrifoldeb I sicrhau eich bod chi'n gallu deall y wybodaeth.

Mae'r wybodaeth rydych chi a'ch plentyn yn ei darparu yn bwysig iawn. Dyma eich cyfle chi I esbonio'r effaith y mae byddardod yn ei gael ar ddysgu eich plentyn.

Po fwyaf o wybodaeth y gallwch chi ei darparu am fyddardod eich plentyn ac unrhyw beth sy'n anodd iddyn nhw gyda'i ddysgu, gorau fydd eich siawns o gael y fath gywir o gymorth dysgu.

Mae'n debygol y byddwch chi'n cael eich gofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Beth ydych chi'n hoffi, edmygu neu werthfawrogi fwyaf am eich plentyn?
- Beth sydd wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf? (Lle bo'n briodol).
- Beth ydych chi'n credu, o'ch safbwynt chi, yw uchelgeisiau eich plentyn am y dyfodol?
- Beth ydych chi'n credu sydd fwyaf pwysig ym mywyd eich plentyn, at hyn o bryd?
- Beth ydych chi'n credu sy'n bwysig i'ch plentyn i'w helpu nhw i ddatblygu a symud ymlaen?
- Beth sy'n rhaid i bobl arall wybod neu wneud i helpu eich plentyn?

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

- Beth sy'n mynd yn dda ar hyn o bryd, o'ch safbwynt chi?
- Beth sydd ddim yn gweithio cystal ar hyn o bryd, o'ch safbwynt chi?
- A oes gennych chi unrhyw gwestiynau?

**Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod CDU?**
Mae'r cyfarfod i benderfynu ar gynnwys y CDU yn gyfarfod hanfodol. Ei nod yw penderfynu a ddylai eich plentyn dderbyn CDU neu barhau i gael CDU ac, os felly, beth ddylai gael ei gynnwys yn y cynllun, gan gynnwys amlinelliad o'r cymorth bydd eich plentyn yn ei dderbyn.

Yn ystod y cyfarfod, dylai'r CADY, neu pwy bynnag sy'n arwain y cyfarfod, sicrhau eich bod chi a'ch plentyn yn cael cyfle i drafod unrhyw awgrymiadau ynghylch anghenion cymorth eich plentyn.

Dyma'ch cyfle chi i gael dweud eich barn ar y cymorth sydd angen ar eich plentyn neu i bwysleisio'r pethau rydych chi'n credu bydd yn anodd i'ch plentyn. Os nad ydych chi'n hapus gydag unrhyw beth, neu os ydych chi'n anghytuno ag opsiynau y mae'r gweithwyr proffesiynol yn y cyfarfod yn eu hawgrymu, mae'n bwysig eich bod chi'n codi'ch llais. Dylai eich barnau chi cael eu hystyried ac unrhyw wahaniaethau barn gael eu nodi yn y CDU.

Bydd eich plentyn yn cael ei annog i fynychu'r cyfarfod a siarad am y cymorth y maen nhw'n credu sydd angen arnyn nhw. Dylai'r bobl sy'n trefnu'r cyfarfod sicrhau bod unrhyw anghenion cyfathrebu yn cael eu cwrdd i alluogi hyn i ddigwydd. Os oes angen cymorth ar eich plentyn i fynegi ei farn, gallan nhw ofyn am eiriolwr - gwasanaeth a ddarperir am ddim gan y cyngor.

Bydd y cyfarfodydd hyn fel arfer yn cael eu cynnal yn yr ysgol neu goleg. Gall eich plentyn roi gwybod i i'r CADY neu'r person sy'n arwain y cyfarfod os oes yna unrhyw beth a fydd yn ei helpu nhw teimlo'n fwy cyfforddus. Efallai na fydd yn bosib cwrdd â phob un o ofynion eich plentyn, ond dylid eu hystyried nhw.

**Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod?**
Ar ôl y cyfarfod, dylech chi dderbyn copi o CDU eich plentyn, neu lythyr yn amlinellu unrhyw benderfyniad i beidio â darparu CDU. Os nad ydych chi'n hapus gyda chynnwys CDU eich plentyn neu gyda phenderfyniad i beidio â darparu CDU, mae gennych chi a'ch plentyn hawliau i herio hyn.

Dylai pob CDU cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, ond os ydych chi, eich plentyn, neu unrhyw un arall sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn credu y dylai'r CDU gael ei adolygu yn fwy aml, mae'n bosib gwneud cais i wneud hyn.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

**Adolygu'r IDP**
Mae'n rhaid i CDUau gael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n bosib efallai y byddai’n ddoeth gynnal adolygiad cynharach, er enghraifft os oes yna newid sylweddol i fyddardod eich plentyn. Gall symud i ardal newydd hefyd sbarduno adolygiad CDU i weld sut gall yr anghenion hyn gael eu cwrdd orau gyda'r DDY sydd ar gael yn yr ardal newydd.

Gallwch chi ofyn am adolygiad cyn y dyddiad a nodir yn y CDU, ac mae'n rhaid i'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol gynnal yr adolygiad, oni bai eu bod yn ei ystyried i fod yn ddiangen.

Gall ffactorau perthnasol gynnwys:

- hyd y cyfnod ers i'r cynllun gael ei baratoi neu ei adolygu
- os oes newid mewn amgylchiadau wedi bod a all effeithio ar y cynllun
- os bydd tystiolaeth neu wybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg a all effeithio ar y cynllun

Gall gweithwyr proffesiynol hefyd ofyn am adolygiad cynnar o CDU, ond mae'n rhaid bod rhywun yn cysylltu â chi os bydd adolygiad cynnar yn cael ei gynnal ac eich bod chi'n cael y cyfle i gyfrannu.

Dylech chi dderbyn adroddiad ar unrhyw gynnydd cyn y cyfarfod i adolygu'r CDU. Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth newydd yr hoffech chi ei rhannu, dylech chi wneud hyn cyn y cyfarfod.

Pwrpas yr adolygiad yw gweld os yw'r canlyniadau a rhestrir yn cael eu cyflawni ac os yw'r DDY a rhoddir yn gweithio'n ddigon da i'ch plentyn. Unwaith eto, mae barnau eich plentyn a'ch teulu chi yn bwysig. Os nad ydych chi'n hapus gydag unrhyw elfen o'r cymorth, dyma eich cyfle i ddweud hynny.

Os erbyn diwedd y cyfarfod mae yna gytundeb i newid y CDU wedyn mae'n rhaid i'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol roi copi diwygiedig o'r CDU i chi a'ch plentyn. Mae'r un peth yn wir hyd yn oed os nad oes unrhyw newidiadau i'r cymorth a ddarperir. Mae'n rhaid i ddyddiad yr adolygiad nesaf gael ei gynnwys yn y CDU.

**Cynllunio pontio**
Gelwir paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn addysg eich plentyn - naill ai dechrau ysgol newydd neu feithrinfa, symud ysgol neu fynd i'r coleg, symud i ystafell ddosbarth newydd neu symud i fyw yn annibynnol - yn cynllunio pontio. Bydd cyfnod pontio llyfn

The National Deaf Children’s Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

sydd wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi'r cyfle gorau i'ch plentyn i allu addasu i'r lleoliad newydd.

Yn aml y peth synhwyrol yw bod cynlluniau pontio gael eu trafod mewn cyfarfod CDU ond gall fod yn ddefnyddiol i gael cyfarfod ar wahân. Beth bynnag yw eich sefyllfa, gallwch chi nodi trafodaethau am bontio yn Adran 3C y CDU.

Dylai cymorth sy'n cael ei drafod o dan yr adran hon dal i gael ei nodi fel DDY o dan Adran 2 y cynllun.

### Ysgol meithrin ac ysgol gynradd

Gall trosglwyddo i'r lleoliad addysg cyntaf fod yn gyfnod pryderus i chi a'ch plentyn. I wneud pethau'n haws, gofynnwch a allwch chi ymweld â'r ysgol neu feithrinfa gyda'ch plentyn fel y gallan nhw ddod yn gyfarwydd â'r amgylchedd. Mae hefyd yn ddefnyddiol i ystyried os oes angen unrhyw hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fyddardod neu addasiadau yn y feithrinfa neu ysgol newydd.

### Ysgol uwchradd

Gall pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd fod yn arbennig o heriol, gyda symud o gwmpas yr adeilad ar gyfer gwersi, gwahanol athrawon ar gyfer gwahanol bynciau, cwrdd â disgyblion newydd nad ydyn nhw'n deall byddardod a mwy o sŵn yn gyffredinol. Eto, mae'n ddefnyddiol ymweld â'r ysgol newydd, efallai mwy nag unwaith, i gwrdd â phobl allweddol ac i weld os oes angen unrhyw hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fyddardod neu addasiadau.

### Gyrfaoedd a choleg

Wrth i bobl ifanc ddechrau gwneud penderfyniadau ynghylch eu haddysg a llwybrau gyrfa am y dyfodol, byddan nhw'n ystyried eu haddysg ac opsiynau gyrfa am y dyfodol.

Rydyn ni'n gwybod bod nifer o bobl ifanc byddar yn poeni am sut bydd eu byddardod yn effeithio ar eu gyrfaoedd. Ond, gyda'r cymorth ac addasiadau cywir, gall pobl ifanc ddilyn eu breuddwydion gyrfa am y mwyafrif o ddewisiadau gyrfa. Os yw hyn yn rhywbeth mae eich plentyn chi yn poeni amdano, gallwch chi ofyn bod eich plentyn yn derbyn cyngor gyrfaoedd uniongyrchol, fel y gallan nhw ddeall y cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

Os ydy'ch plentyn chi yn meddwl am goleg, efallai y byddan nhw am archwilio'r gwahanol opsiynau a chymorth y gall colegau eu cynnig.

### Trosglwyddiadau llai

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

Hyd yn oed os ydy'ch plentyn yn symud o un ystafell ddosbarth i un arall, gall adran pontio'r CDU fod yn broc defnyddiol i siarad am unrhyw gymorth y mae ei angen i helpu gyda'r newid hwn.

Beth bynnag yw'r newid, dylai'r cyfarfod i adolygu'r CDU gynnwys pobl o'r lleoliad newydd. Gall hyn fod y CADY, athro neu gynrychiolwr arall.

**Beth sy'n digwydd os oes yna anghytundeb?**
O bryd i'w gilydd efallai bydd yna anghytundebau ynghylch a oes gan eich plentyn ADY, a ddylid darparu CDU, neu beth sy'n cael ei amlinellu yn y CDU.

Pwrpas y broses yw rhoi i chi digon o gyfleoedd i drafod a datrys yr anghytundebau hyn cyn iddyn nhw waethygu. Gallwch chi fynegi pryderon ar unrhyw bryd gyda'ch CADY, SAADYBC neu'r person sy'n cydlynu cynllun eich plentyn.

Os ydych chi'n teimlo nad yw'r ysgol neu goleg yn mynd i'r afael â'ch pryderon, gallwch chi godi'r mater gyda'ch awdurdod lleol. Ond, mae yna hefyd gamau eraill y gallwch chi eu cymryd.

| **Pwysig** |
| --- |
| Cadwch mewn cof bod gan rai o'r ffyrdd mwy ffurfiol o herio penderfyniadau derfynau amser. Dylech chi gael gwybod am y rhain yn ysgrifenedig drwy gydol y broses. |

### Gwasanaeth Datrys Anghydfodau (GDA)
Os ydych chi'n cyrraedd sefyllfa lle na allwch chi ddatrys yr anghydfod gyda'r rheini sy'n cydlynu'r cynllun, wedyn gallwch chi droi at Wasanaeth Datrys Anghydfodau (GDA) yr awdurdod lleol. Cynllunnir y gwasanaeth hwn i helpu trafodaethau gyda'r nod o gyrraedd cytundeb.
Gallwch chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i chi amdano mewn fformat sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc. Yn bwysig ddigon, mae'n rhaid bod GDA yr awdurdod lleol yn ddi-dâl, a bod y staff yn ddiduedd, wedi'u hyfforddi mewn datrys anghytundebau ac â dealltwriaeth fanwl o'r system ADY.

Gallwch chi neu'ch plentyn hefyd apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn penderfyniad. Mae yna amserlenni llym ar gyfer gofnodi apêl. Anogir teuluoedd i ddefnyddio'r GDA, ond nid yw'n ofyniad cyfreithiol ichi wneud hyn. Os ydych chi'n

dymuno, gallwch chi gofnodi apêl ar yr un pryd â chysylltu â'r GDA, ac wedyn tynnu eich apêl os ydych chi'n hapus bod y mater wedi cael ei ddatrys drwy broses datrys anghydfodau.

### Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol di-dâl i'ch plentyn, os ydyn nhw'n gofyn amdano. Gall yr eiriolwr annibynnol roi gwybodaeth a chyngor arbenigol a helpu'ch plentyn i gyfathrebu ei farnau a dymuniadau i sicrhau ei fod yn cael ei glywed.

### Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn annibynnol o lywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau , ac mae ei benderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Mae'n clywed ac yn penderfynu ar apeliadau am blant a phobl ifanc sydd â neu a allai fod ag ADY. Gallwch chi ddechrau apêl i'r Tribiwnlys ar yr un pryd â defnyddio GDA yr awdurdod lleol, a ni ddylai hyn effeithio o gwbl ar yr apêl i Dribiwnlys.

Mae'r amserlen am chwilio am apêl i dribiwnlys wedi'i gosod yn wyth wythnos ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud, ond gall unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r apêl ofyn am gyfnod o oedi. Os ydych chi hefyd yn defnyddio GDA yr awdurdod lleol, mae'r amserlen wyth wythnos yn cael ei hymestyn am wyth wythnos arall.

Gallwch chi apelio at y Tribiwnlys ar sawl agwedd o'r CDU, gan gynnwys:

- penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY
- penderfyniad ynghylch darparu CDU
- agweddau o'r Cynllun Datblygu Unigol, gan gynnwys disgrifiad o'r ADY, a yw ysgol neu goleg penodol wedi'u henwi neu beidio, a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd wedi'i hamlinellu
- penderfyniad awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan ofynnwyd iddyn nhw ailystyried
- penderfyniad awdurdod lleol i beidio â chymryd cyfrifoldeb am CDU ar gais eich plentyn neu'r ysgol
- penderfyniad i ddod â CDU i ben
- penderfyniad i beidio â gwneud newidiadau i CDU oherwydd nid oes newid mewn anghenion na gwybodaeth newydd sy'n effeithio ar y penderfyniad

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

Gall y Tribiwnlys wneud y penderfyniadau canlynol:

- gwrthod yr apêl
- datgan bod gan berson yr ADY sydd wedi'u pennu gan asesiad y CDU neu beidio
- gorchymyn bod sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn paratoi CDU
- gorchymyn bod sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn adolygu CDU
- gorchymyn bod ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn cynnal CDU (gyda neu heb adolygiadau)
- gorchymyn bod awdurdod lleol yn ymgymryd â chyfrifoldeb am gynnal CDU
- gorchymyn bod sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn adolygu CDU
- dychwelyd yr achos i'r awdurdod addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdano, i ailystyried yr arsylwadau a wneir gan y Tribiwnlys a phenderfynu a ddylid gwneud penderfyniad gwahanol

## Cwynion

Mae yna ffyrdd gwahanol o herio penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud am y Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol y mae eich plentyn yn ei derbyn:

- Gweithdrefn gwyno'r ysgol, coleg neu awdurdod lleol.
- Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cwynion gweithdrefnol yn erbyn awdurdodau lleol a chyrff GIG. Mae'r ombwdsman yn gallu ystyried a gafodd y broses ei dilyn yn gywir yn unig, ac nid ar fanylion y penderfyniadau.
- Gwasanaeth cyngor ac ymchwiliad di-dâl wedi'i ddarparu gan Gomisiynydd Plant Cymru.
- Comisiynydd Y Gymraeg os na chafodd eich anghenion cyfathrebu eu cwrdd yn ystod y broses.
- Mewn rhai amgylchiadau gallwch chi wneud cais i'r llysoedd am adolygiad barnwrol I gyfreithlondeb penderfyniad neu weithrediad.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

## Yr hyn all rhieni ei wneud

- Gofyn am CDU cyn gynted â phosib.
- Cadw cofnodion a chopïau o adroddiadau, adnabyddiaethau, ac asesiadau gan gyrff GIG neu leoliadau addysg.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd i drafod ADY, DDY neu adolygu'r CDU.
- Sicrhau bod trefnydd y cyfarfod yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu eich plentyn.
- Dewch i adnabod CADY yr ysgol neu goleg.
- Siaradwch â'ch plentyn am yr hyn y maen nhw am ei gyflawni a'r ffordd orau o'i gyflawni.
- Byddwch yn glir am yr hyn y mae eich plentyn eisiau a faint o gymorth sydd angen arnyn nhw. Codwch eich llais os ydych chi'n anghytuno ag awgrymiadau y mae'r gweithwyr proffesiynol yn eu gwneud a rhowch eich rhesymau dros anghytuno.
- Cofiwch, nid yw'r Proffil Un Dudalen ar ei ben ei hunan yn ddogfen gyfreithiol. Rhaid i CDU hefyd gynnwys Adran 2 a'r DDY.
- Sicrhewch eich bod chi'n gofyn am adolygiad o'r CDU os ydych chi'n credo nad yw'ch plentyn yn ffynnu gyda'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn, neu os bydd newidiadau i'w byddardod neu amgylchiadau yn effeithio ar eu hanghenion cymorth.
- Cofiwch fod gennych hawl i herio penderfyniadau nad ydych yn hapus â nhw a bod cefnogaeth ar gael i'ch helpu i wneud hyn. Cysylltwch â'n Llinell Gymorth am gyngor a chefnogaeth yn ndcs.org.uk/helpline.

## Rhestr termau

**ADY**
Anghenion Dysgu Ychwanegol (gynt Anghenion Addysgol Arbennig neu Anabledd Dysgu).

**CADY**
Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, mewn ysgolion a cholegau, gynt Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA).

**CCU**
Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion - yn rhoi eich plentyn, person ifanc neu riant yng nghanol y drafodaeth a'r broses o wneud penderfyniadau.

**CDU**

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).

Cynllun Datblygu Unigol - y cynllun sy'n cynnwys manylion ADY a DDY dysgwr, sy'n cael ei ddiweddaru yn flynyddol. (Gynt Datganiadau neu Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy).

**DDY**
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol - y cymorth dysgu i'r plentyn/person ifanc gydag ADY.

**GDA**
Gwasanaeth Datrys Anghydfodau (neu Anghytundebau) – dylunnir y gwasanaethau hyn i helpu siarad trwy unrhyw anghytundebau ynghylch CDUau. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gael un a hysbysebu sut i gysylltu â nhw a defnyddio'r gwasanaeth.

**Proffil Un Dudalen**
Yn Adran 1C o CDU, mae hyn yn grynodeb o'r wybodaeth allweddol ac yn darparu lle i gofnodi gwybodaeth bwysig am eich plentyn i weithwyr proffesiynol.

**SAADYBC**
Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar. Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i benodi un. Maen nhw'n gyswllt allweddol i deuluoedd gyda phlant blynyddoedd cynnar sydd am gael CDU.

**SACDA**
Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg - gweithiwr proffesiynol mewn Bwrdd Iechyd sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol ar ADY.

The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779).